**LC653**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru — National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Rheoliadau Cofrestru Tir Comin (Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2003**

Mae'r rhain yn darparu ar gyfer cynnydd mewn ffioedd mewn perthynas â chofrestru tir comin.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Gwahoddir y Cynulliad i dalu sylw arbennig i'r diffygion drafftio canlynol a gydnabyddwyd ar ran y Gweinidog priodol ac y mae'n briodol i'w cywiro drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau.

1. Yn rhinwedd y diffiniad o "the Form" yn rheoliad 1(3), effaith rheoliad 3 yw diwygio Rheoliadau 1989. Serch hynny, gan y cyflwynodd Rheoliadau 1989 y Ffurflen 21 newydd yn lle ffurflen arall yn y Prif Reoliadau y Prif Reoliadau ddylai gael eu diwygio. Gellid cyflawni hyn drwy ddileu o ddiffiniad "the Form" y geiriau "contained in the Schedule to" a rhoi yn eu lle - "as substituted in Schedule 1 to the Principal Regulations by."

2. Mae Rheoliad 4 yn ceisio diddymu holl Reoliadau 1989 ac eithrio Rheoliad 3 a'r Atodlen. Serch hynny, byddai hyn yn gadael y rheoliadau hynny heb y ddarpariaeth enwi a'r ddarpariaeth gychwyn yn rheoliad 1 a heb y ddarpariaeth ddiffino yn rheoliad 2. Dylid felly gyfyngu diddymu i reoliad 4. Fel arall, gan na fyddai diddymu Rheoliad 4 ynddo'i hyn yn cyflawni llawer iawn gallai fod yn well gadael Rheoliadau 1989 heb eu newid.

**Sylwadau**

Dylai troednodyn (a) ar dudalen 2 gyfeirio'r defnyddiwr at adran 22(1) ar gyfer y diffiniad o "prescribed" ac at adran 19 ar gyfer darpariaeth o ran rheoliadau. Heb hyn nid yw'n amlwg yn syth fod y pwerau a dyfynnwyd yn cyflwyno pwer i wneud rheoliadau.

Mick Bates AC
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

11 Mawrth 2003